# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | **ADRODDIAD HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD HUW WYN JONES** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 IONAWR 2025** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gyllid. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
- Lle mae'r mesurau perfformiad arni
- Diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau

3.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

3.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiectau blaenoriaeth perthnasol.

## 4. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)

4.1 Mae'r Adran Gyllid yn arwain ar ddau brosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, sef:

- **Cyflawni Arbedion**
- **Cynllun Digidol 2023-28**

4.2 Rwyf yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr Adran yn erbyn y ddau brosiect yma, ac mae mwy o fanylion am y cynnydd yn erbyn cerrig milltir i'w cael yn yr Atodiad.

## 5. PERFFORMIAD

5.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd ddiwethaf ym mis Hydref. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**5.2 Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Rwyf yn fodlon fod perfformiad y gwasanaeth hwn wedi aros yn gyson dda dros y misoedd diwethaf. Fel rhan o gynllun toriadau, mae'r gwasanaeth wedi colli un aelod o'r tîm ar ddiwedd Rhagfyr 2024 a bydd angen ystyried yr angen i gwtogi oriau agor y ddesg gymorth er mwyn cyflawni'r toriad yn llawn.

Rhai o'r prosiectau sydd ar y gweill gan y tîm ar hyn o bryd yw:

- Paratoi ar gyfer trosglwyddo i Windows 11 (gan fod cefnogaeth Windows 10 yn dod i ben)
- Mudo'r system Top Desk (sy'n rheoli galwadau a chefnogaeth) i'r cwmwl
- Gwella darpariaeth Microsoft 365, gydag adnodd dros dro wedi ei leoli gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth (Adran Gwasanaethau Corfforaethol).

O ran cwtogi oriau agor y ddesg gymorth, nid oes yna unrhyw amseroedd sydd yn fwy prysur na'i gilydd – mae'r bore yn dueddol o fod yn gyfnod prysur gyda swyddogion yn dechrau'r diwrnod gwaith, ond gall diwedd y dydd hefyd fod yn brysur wrth i swyddogion sydd gweithio allan gysylltu gyda'r rhwydwaith.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd, mae modiwl newydd wedi ei brynu i'r system Top Desk a fydd yn amlygu unrhyw broblemau/trafferthion sy'n codi tro ar ôl tro.

5.3 **Gwasanaeth TG – Isadeiledd.** O ran argaeledd y rhwydwaith, roedd y perfformiad hyd at ddiwedd Tachwedd yn gyson â'r cyfnod blaenorol, ond disgwyliwn i'r perfformiad am y cyfnod nesaf fod yn is oherwydd y cyfnodau o ddiffyg trydan o ganlyniad i Storm Darragh.

Rhai prosiectau sydd ar y gweill yw:

- Newid i'r system arbed wrth gefn gyda serfers newydd yn disodli'r rhai cyfredol wrth iddynt heneiddio.
- Y gwaith o fudo system ffôn ar y gweill, rhagwelir bydd y cyswllt rhwng y 2 system ffôn yn ei le erbyn 8 - 9 Ionawr a gellir dechrau ar y gwaith mudo wedi hynny.
- Gwaith cyson gan y tîm seibr yn monitro, ac mae Gwynedd yn awdurdod arweiniol yn y gwaith o ymgorffori trefniadau CymruSOC (Canolfan Gweithrediadau Seiberddiogelwch Cymru) i atgyfnerthu ein gwytnwch seibr. Bydd y maes yma yn derbyn cryn sylw rŵan ac i'r dyfodol.

Rwyf yn falch o weld fod y Gwasanaeth yn cydweithio gydag adrannau a gwasanaethau eraill er mwyn cyfrannu tuag at wella effeithlonrwydd y gwasanaethau hynny. Er enghraifft, mae cydweithio gyda'r Gwasanaeth Incwm ar eu system anfonebu wedi arbed 6 awr o amser staff yn wythnosol.

5.4 **Gwasanaeth TG – Datblygu.** Mae nifer o brosiectau ar y gweill gan y Gwasanaeth – dyma rhai enghreifftiau:

- Cofrestr cartrefi preswyl fel bod modd derbyn adroddiad byw o sefyllfa gwlâu o fewn y cartrefi.
- Defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial er mwyn cynorthwyo'r Adran Addysg i adnabod unrhyw ohebiaeth gadarnhaol neu feirniadol am ysgolion a throsglwyddo gwefan y Cyngor i'r cwmwl gan gyflwyno gwelliant sylweddol i brofiad chwilio am gynnwys ar y wefan.
- Mae'n ddyddiau cynnar y Gwasanaeth o ran defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial, ac mae is-grŵp o'r Cynllun Digidol wedi cael y dasg o adnabod ble gellir gwneud defnydd ohono.

Mae prif systemau'r Cyngor yn y cwmwl erbyn hyn (e.e. e-byst ac iGwynedd), gydag unrhyw ddatblygiadau newydd yn dueddol o ddefnyddio'r cwmwl. Mae buddion a phroblemau yn deillio o hynny; er enghraifft, mae cefnogaeth gan y darparwyr, ond mae pethau tu allan i reolaeth y Cyngor os oes rhywbeth yn mynd o'i le.

Rwyf yn falch iawn o adrodd fod y gwasanaeth wedi llwyddo i werthu system maent wedi dylunio yn fewnol i awdurdod lleol arall, gyda phosibilrwydd o werthu systemau eraill iddynt hefyd.

5.5 **Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Erbyn hyn, mae dros 16,800 o ddyfeisiadau wedi eu rhannu i'r ysgolion fel rhan o gynllun y Llywodraeth i drawsnewid digidol o fewn yr ysgolion, gyda'r Gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth i'r dyfeisiadau hyn.

5.6 **Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys.** Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am fuddsoddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ogystal â rheolaeth trysorlys Cyngor Gwynedd.

Roedd perfformiad buddsoddi'r gronfa yn uwch na'r meincnod yn y chwarter diwethaf, gyda phob categori ased yn perfformio'n dda, a hefyd cyfraddau llog yn uwch na graddfa sylfaen Banc Lloegr.

5.7 **Gwasanaeth Archwilio Mewnol.** Erbyn diwedd Tachwedd, roedd ychydig yn llai na 30% o'r cynllun archwilio wedi ei gwblhau. Un o'r prif resymau dros hyn yw gofyniad i'r archwilwyr ganolbwyntio ar gyflawni gwaith ar ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ble mae'r gwasanaeth yn derbyn incwm ar ei gyfer. Bydd yr incwm yma yn caniatáu i'r gwasanaeth brynu arbenigedd allanol mewn rhai meysydd. Wrth gwrs, mae monitro perfformiad Archwilio Mewnol o safbwynt y cynllun ar gyfer Cyngor Gwynedd yn dod o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cydnabuwyd yn hanesyddol fod y pris ar gyfer cwblhau archwiliad ar gyfrifon cynghorau cymuned wedi bod yn isel, a gallaf sicrhau'r Cabinet fod y prisiau wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf fel nad yw Cyngor Gwynedd yn sybsideiddio'r gwaith yma. Bydd y pris yn cynyddu unwaith eto ar gyfer 2025/26.

5.7 **Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg.** Mae'r perfformiad wedi bod yn gyson gyda chyfnodau blaenorol. Rwyf yn falch o adrodd fod dau ddatblygiad cadarnhaol wedi bod yn y misoedd diwethaf. Gwelwyd gwelliant yn yr wybodaeth a dderbynnir gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, sydd yn gymorth i'r Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg allu ymdrin â hawliadau yn amserol. Yn ail, yn dilyn cyfarfod diweddar gydag un o'r yswirwyr, rydym yn disgwyl camau pendant a gwelliant yn y gwasanaeth a dderbynnir yn dilyn cyfnod lle nad oedd y gefnogaeth yn cwrdd â'r safon ddisgwyliedig.

5.8 **Gwasanaeth Incwm.** Roedd balans dyledion amrywiol dros 6 mis oed ar ddiwedd Tachwedd yn £2,117,911 oedd yn gynnydd sylweddol, o £670,000, o'i gymharu â'r sefyllfa ddiwedd mis Medi. Mae oddeutu £471,000 o'r swm yma yn cynnwys dyledion y Bwrdd Iechyd (£350,000) ac anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal (£121,000). Bydd gwaith yn parhau i olrhain y sefyllfa ar fyrder.

Datblygiad diweddar yw gweithredu'r system Call Secure ar gyfer derbyn taliadau dros y ffôn. Mae'r system hwn yn cryfhau diogelwch cardiau pan fo cwsmeriaid yn talu dros y ffôn; mae'r system newydd yn weithredol yn llawn erbyn hyn. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i gael ystadegau gan Galw Gwynedd i gefnogi os yw niferoedd taliadau wedi lleihau neu wedi cynyddu, ond byddwn yn rhoi sylw i hyn dros y misoedd nesaf.

**5.9** **Gwasanaeth Budd-daliadau.** Mae perfformiad y gwasanaeth yma yn parhau'n gyson dda mewn cymhariaeth â chyfnodau blaenorol; mae cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd ar gyfer mis Tachwedd yn 16.92 diwrnod sy'n welliant ar yr un cyfnod yn 2023/24, sef 18.40 diwrnod.

Ar y llaw arall, mae'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau yn ystod mis Tachwedd yn 5.87 diwrnod sydd ddau ddiwrnod yn hirach na'r un cyfnod yn 2023/24, sef 3.82 diwrnod. Rwyf yn fodlon fod y cynnydd yma oherwydd bod y Gwasanaeth wedi defnyddio adnoddau i gynorthwyo gyda prosiect i ymestyn allan i drigolion oed pensiwn er mwyn eu hannog i wneud cais am Gredyd Pensiwn a thrwy hyn gynyddu eu cyfle i dderbyn Taliad Tanwydd Gaeaf gan yr Adran Waith a Phensiynau, ac fod y nifer dyddiau a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau yn parhau yn dderbyniol.

**5.10** **Gwasanaeth Cyflogau.** Rwyf yn falch o allu adrodd fod y Gwasanaeth Cyflogau wedi gweithredu cytundeb tâl 2024/25 ar gyfer gweithwyr APT&C ac athrawon yng nghyflogres mis Tachwedd, a hynny yn amserol ar ôl y cytundeb. Gwnaethpwyd yr addasiadau yn esmwyth a ddidrafferth.

Y prif risg i'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yw dyfodol y system cyflogau, gyda'r angen i brynu system gyfrifiadurol newydd o fewn y 24 mis nesaf, gan fod cefnogaeth i'r system bresennol yn dod i ben. Rydym yn ystyried yr opsiynau posib ar hyn o bryd.

Nodaf fod nifer y camgymeriadau wedi lleihau ers cychwyn y flwyddyn, a hynny yn bennaf am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'r Gwasanaeth Cefnogol wedi codi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr ynghylch pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir a chyflawn a hefyd y Gwasanaeth Cyflogau yn fwy caeth o ran amserlen derbyn newidiadau, sy'n golygu nad yw swyddogion yn rhuthro i wneud y newidiadau i gyflogau unigolion.

**5.11** **Gwasanaeth Trethi.** Mae perfformiad cyfradd casglu Treth Cyngor yn is na'r cyfnodau blaenorol, gyda'r lleihad yn rhannol i lawr i'r cynnydd mewn treth cyngor a gallu treth dalwyr i dalu'r canran uwch na chwyddiant a hefyd gwelwyd nifer o ail gartrefi (dros 400 eiddo) wedi dychwelyd o Drethi Annomestig. Bu'r Gwasanaeth yn hwyrach yn cychwyn y cylch adennill eleni, ond erbyn hyn wedi cyrraedd y pwynt arferol.

Ar hyn o bryd, mae perfformiad y Cyngor o ran gyfradd casglu Treth Cyngor ymysg y chwartel isaf yng Nghymru ac mae gwaith yn parhau i adnabod y rheswm am hyn, ond nid oes amheuaeth fod cynnydd yn y nifer o drigolion Gwynedd sy'n ei chael yn anodd i dalu biliau.

Rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth adrodd i mi ar amser ymateb e-byst a galwadau ffôn o hyn ymlaen.

**5.12 Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg.** Mae'r gwaith o adrodd ar sefyllfa ariannol adolygiad diwedd Tachwedd ar y gweill, gan adrodd i'r pwyllgorau amrywiol ym mis Ionawr. Cwblhawyd 5 set o gyfrifon o fewn yr amserlen ac mae'r llwyddiant yma yn golygu bydd y Cyngor yn derbyn blaenoriaeth gan Archwilio Cymru i archwilio cyfrifon 2024/25 yn gynharach.

## 6. ARBEDION ADRANNOL

6.1 Mae'r adran wedi derbyn targed arbedion gwerth £371k ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25, hyd yn hyn eleni mae wyth cynllun gwerth £194k eisoes wedi eu gwireddu a phedwar cynllun pellach gwerth £139k ar drac i'w cyflawni yn amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae peth risg o ran gwireddu yr un cynllun sydd yn weddill sydd werth £38k.

Yn ychwanegol i'r uchod, mae gan yr adran dri cynllun arbedion gwerth £166k perthnasol i 2023/24 sydd yn parhau heb eu gwireddu. Mae un o'r cynlluniau gwerth £102k gyda £64k ohono yn 2023/24 a £38k yn 2024/25 (a gyfeirir ato uchod), sydd yn ymwneud â Chynyddu targedau Incwm i fod yn gymesur â'r Gwaith. Bu hefyd oediad ar ddau gynllun yn y maes technoleg gwybodaeth sef cynllun Ail strwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gwerth £72k ac ar gynllun Rhesymoli Trwyddedau Microsoft £30k.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL0**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma, ac yn cadarnhau'r cynnwys.

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 2

## Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma<br>(nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol<br>(Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid** | **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol** | 1. Monitro fod yr arbedion a thoriadau gwerth £5.6m ar gyfer 2024/25, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 07/03/24, ynghyd â unrhyw arbedion sydd eto ar ôl i'w gwireddu yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s40348/Eitem%209%20-%20Atodiad%203%20-%20Arbedion.pdf?LLL=1 | Y sefyllfa erbyn adolygiad diwedd Tachwedd 2024 yw bod arbedion gwerth dros £41.7m wedi eu gwireddu ers Ebrill 2015, o'r ffigwr yma mae gwerth £1.9 miliwn ohono yn berthnasol i arbedion y flwyddyn ariannol 2024/25. Serch hyn, mae nifer o gynlluniau arbed ar draws y Cyngor heb eu gwireddu. | Ydi – yr arbedion wedi eu monitro ond y targed llawn heb ei gyflawni. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol. | Yn ystod y flwyddyn ariannol yma rydym wedi adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 10ed o Hydref 2024 ac i'r Cabinet 15ed o Hydref 2024 ar sefyllfa'r arbedion fel rhan o'r adolygiad ariannol sydd wedi ei wneud diwedd Awst. Bydd diweddariad o'r sefyllfa yn cael ei adrodd yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd fydd yn cael ei adrodd i bwyllgorau yn Ionawr 2025. | Ydi |
| | | 3. Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion a thoriadau y Cyngor ac i ystyried y cynlluniau sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu. | Bu i ni hefyd adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn. | Ydi |
| | | 4. Adrodd i Gabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 10 Hydref 2024 a 16 Ionawr 2025 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | Mae hyn wedi digwydd | Ydi |
| | | 5. Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. Mae gwireddu gwerth dros £39 miliwn o arbedion ers 2015 [hyd at 2023/24] yn golygu fod cyfleon am arbedion effeithlonrwydd eisoes wedi eu cyflawni. | Yn dilyn sefydlu y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fel rhan o waith i'r Bwrdd, mae'r Adran Gyllid eisoes wedi darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer cynllunio ymlaen i edrych ar arbedion 2025/26 ac ymhellach. | Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid** | **Cynllun Digidol** | Gweithgaredd raglennwyd ar gyfer 2024/2025:<br>Mae'r cynlluniau isod unai yn hunan-gyllidol oddi ar yr adnoddau sydd gan y Cyngor yn barod, neu wedi derbyn cefnogaeth lawn i'w rhoi ar waith yn ystod y ddwy flynedd nesaf:<br>• Blaenoriaethu prosiectau o Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-2028 ar sail dynodiad y gefnogaeth ariannol – Ch1 2024/25<br>• Paratoi adnoddau parhaol ac achlysurol i roi prosiectau'r cynllun ar waith Ch1 a Ch2<br>• Adnodd seibrddiogelwch (parhaol) – Ch2<br>• Adnoddau Microsoft365 (achlysurol) - Ch1<br>• Prentisiaid gradd gwyddor data (cytundeb 3 mlynedd) – Ch1<br>• Hyfforddai Trawsnewid Digidol (cytundeb 3 mlynedd) – Ch1<br>• Swyddog teleffoni (parhaol) – Ch2<br>• Adnodd ymchwil (cytundeb 2 flynedd) - Ch2<br><br>Dyma'r prosiectau a roddir ar waith yn 2024/25: | | |
| | | **GWEI2 – cefnogi gweledigaeth y rhaglen "Gweithio i'r dyfodol"**<br>▪ Caffael offer cyffredin ar gyfer desgiau mynd a dod<br>▪ Newidiadau bosib i'r rhwydwaith ardal eang i gyfarch newid i gragen y swyddfa<br><br>**CC3 – ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor**<br>▪ Cytuno ar ddyluniad<br>▪ Datblygu a profi'r newidiadau<br>▪ Cyflwyno'r dyluniad newydd yn fyw | Mae'r uned ddatblygu wedi cwblhau system i neilltuo desgiau mynd a dod a wedi cydweithio â'r Gwasanaeth Eiddo i ymgorffori dyluniadau newydd ein swyddfeydd i'r system a parhau mae cefnogaeth isadeiledd i hwyluso symud pwyntiau rhwydwaith a phwyntiau cyswllt di-wifr.<br><br>Tîm y We wedi arddangos newidiadau arfaethedig i gyfarfod y Bwrdd Trawsnewid Digidol ar 8 Ionawr. | Ydi<br><br><br><br><br>Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **CC4 – datblygu a hyrwyddo apGwynedd**<br>▪ Cyflwyno ffwythiant newydd ar gyfer mapio llwybrau byw gwasanaethau bysiau | Bydd sylw i ddatblygiadau pellach i apGwynedd ar waith o ddiwedd Ch4 ymlaen ac yn ddibynnol ar ganlyniadau CC3. | Na |
| | | **CC1 – ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a cyflwyno ceisiadau am wasanaeth**<br>▪ Creu manyleb anghenion<br>▪ Mewnosod datrysiad cyswllt aml gyfrwng ar y wefan ac ar gyfer Siop Gwynedd/Galw Gwynedd | Mae dibyniaeth ar brosiect CC2 ar gyfer y gwaith hwn, a bydd gweithgaredd ymylol i CC1 fel rhan o waith paratoadol mewnosod y system ffôn. | Na |
| | | **CC2 – gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor**<br>▪ Ymchwilio i ddatrysiadau sydd ar gael<br>▪ Creu manyleb anghenion<br>▪ Caffael datrysiad<br>▪ Mudo'r ddarpariaeth bresennol i'r ddarpariaeth newydd<br>▪ Hyfforddi | Mae'r prosiect yma yn symud yn ei flaen ar garlam, ond mae cryn ffordd i fynd.<br>• Swyddogion teleffoni wedi derbyn hyfforddiant a wedi eu cymhwyso<br>• Y system ffôn newydd yn weithredol, gan gynnwys y ddarpariaeth canolfan gyswllt<br>• Wedi ei integreiddio'n llwyddiannus i'r llwyfan MS Teams<br>• App WebEx wedi ei brofi ar ffonau symudol<br>• Ffonau desg wedi eu cysylltu'n llwyddiannus<br>• Archeb wedi ei osod ar gyfer cyflenwi ffonau desg (i'r ysgolion yn bennaf)<br>• Mathau o ffôn a archebwyd yn rhedeg WebEx yn gynhenid, sef y ddarpariaeth fydd yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg ar gefn y prosiect hwn<br>• Archeb wedi ei godi gyda BT (darparwr cyfredol) ar gyfer gwaith uno'r system gyfredol gyda'r system newydd. Mae'r eitem yma yn risg ar hyn o bryd oherwydd diffyg cydweithrediad gan BT<br>• Swydd ddisgrifiad ar gyfer adnodd busnes newydd wedi cael ei arfarnu ac yn mynd i'r farchnad gyflogaeth yn y flwyddyn newydd | Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **GSB1 – cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaeth a rheolaidd** | Mae sawl prosiect ar waith gan gymryd y cyfle i dreialu gwahanol ddatrysiadau.  Mae un tîm yn datblygu popeth yn fewnol, tra bod tîm arall yn defnyddio cynnyrch Copilot studio gan Microsoft.  Gwella profiadau a canlyniad chwilio ar y wefan gorfforaethol yw cwmpas y darpariaeth mewnol, tra bod yr ymdrech gyda cynnyrch Microsoft yn targedu gohebiaeth. | Ydi |
| | | **GSB2 – digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu**<br>▪ Creu tîm dan arweinyddiaeth Cyllid<br>▪ Adnabod y drefn gyfredol<br>▪ Dylunio trefn newydd<br>▪ Comisiynu gwaith datblygu | Mae'r prosiect yma yn cael ei ddal yn ôl am gyfnod tan bod allbwn prosiect GSB5 ar gael.  Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail penderfyniadau a geisir o'r wybodaeth a rennir o'r adroddiad. | Na |
| | | **GSB8 – hwyluso cydweithio â phartneriaid**<br>▪ Agenda parhaus na fydd â therfyn amser | Mae hwn yn weithgaredd parhaus gyda'r isod yn ddatblygiadau o nôd:<br>• Cydweithio â GwE i ddod â'r corff i ben<br>• Cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforedig<br>• Gwerthu system asedau i awdurdod cyfagos<br>• Cydweithio â phartneriaid ar draws y gogledd ar sefydlu cynhadledd gofal yn Venue Cymru ar 5ed Mawrth 2025 | Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **GSB5 – adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad**<br>▪ Paratoi manyleb o anghenion<br>▪ Caffael ymgynghorwyr i baratoi adolygiad<br>▪ Ymgymryd â'r adolygiad<br>▪ Dehongli'r canlyniadau a cyflwyno'r darganfyddiadau<br>▪ Paratoi'r camau nesaf | Comisiynwyd Socitm Advisory fel ymgynghorwyr i lunio adroddiad ar ein opsiynau ar gyfer systemau rheoli'r sefydliad, gyda'r gwaith bellach wedi ei gwblhau.<br><br>Bydd gweithgaredd mewnol pellach i ddadansoddi'r opsiynau a llunio achos busnes ar sail y ddau brif opsiwn hyfyw; System Rheoli'r Sefydliad llawn (tier 2) neu cyfres o Sustemau Busnes Penodol (ariannol, caffael, cyflogau ac adnoddau dynol). Trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr 15ed Ionawr. | Ydi |
| | | **GWYD2 – parhad gwasanaeth**<br>▪ Creu swydd ddisgrifiad a chyflogi swyddog diogelwch newydd<br>▪ Sefydlu cynllun ymateb i ddigwyddiad<br>▪ Profi'r cynllun ymateb i ddigwyddiad<br>▪ Creu adroddiad blynyddol ar wytnwch ein gwasanaethau | Mae trafodaethau ar sefyllfa llywodraethu seibr oddi fewn y Cyngor yn mynd rhagddo, gyda cydnabyddiaeth nad rhywbeth i'r Gwasanaeth TG yn unig yw seibr a bod perchnogaeth Cyngor gyfan iddo. Mae pedwar maes penodol i'w cyfarch:<br><br>• Amddiffyn rhag ymosodiad seibr<br>• Ymateb i ymosodiad seibr<br>• Byw yn ystod ymosodiad seibr<br>• Adfer wedi ymosodiad seibr | Na |
| | | **GSB7 – gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365**<br>▪ Paratoi swydd ddisgrifiadau a chyflogi adnoddau ar gyfer<br>▪ Ymchwilio ffwythiannau a gwahanol flasau o Microsoft365<br>▪ Effaith o ddefnydd y pecynnau o safbwynt technegol a llywodraethu gwybodaeth<br>▪ Gweinyddu'n defnydd o'r llwyfan gan leihau byrdwn costau'r llwyfan<br>▪ Rhoi'r tîm estynedig ar waith i ddefnyddio'r llwyfan i'w lawn botensial<br>▪ Dadansoddi effaith yr ymarferiad<br>▪ Paratoi achos busnes ar gyfer cefnogaeth barhaol | Mae gwasanaeth swyddog llywodraethu gwybodaeth wedi ei sefydlu i edrych yn benodol ar oblygiadau sefydlu rhai o ffwythiannau'r amgylchedd Microsoft365. Yn dechnegol, gellir rhyddhau popeth sydd wedi ei gynnwys oddi fewn ein trwyddedau, ond mae angen pwyllo gyn gwneud hynny, gan asesu ardrawiad newidiadau neu gyflwyno darpariaeth newydd. | Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **GWYD1 – uwchraddio llinellau analog i ddigidol**<br>▪ Blaenoriaethu'r adnodd canolog i gario ymlaen gyda gwaith sydd wedi ei gyflawni'n barod (Cam 1) i adnabod cysylltiadau analog sydd angen eu uwchraddio<br>▪ Symud y prosiect i Cam 2, gan adnabod pa gysylltiadau sydd angen parhau a trefnu i ddiffodd y cysylltiadau nad oes eu hangen<br>▪ Adnabod technoleg amgen ar gyfer y gwasanaethau sydd angen parhau<br>▪ Cydweithio a'r adrannau fel eu bod yn perchnogi'r tasgau a cost o fudo i'r darpariaeth newydd | Mae'r dasg yma yn gwneud cynnydd gyda nifer o linellau wedi eu dileu. Er hyn, mae nifer o linellau'n parhau a mae cyswllt wedi eu hadnabod ym mhob adran i hwyluso'r dasg o adnabod statws darpariaeth y cyswllt. | Na |
| | | **GWYD3 – uwchraddio darpariaeth darlledu yn siambrau'r Cyngor**<br>▪ Gwelliannau i ddarpariaeth darlledu gweledol yn Siambr Dafydd Orwig a Hywel Dda | Mae hwn wedi llithro a mae darparwr newydd wedi eu gwahodd i gynghori ar newidiadau ar gychwyn Ch4. | Na |
| | | **GD2 – siarter data**<br>▪ Is-grŵp data i greu siarter data | Gweithdy cyntaf o gyfres o weithdai dan arweiniad cwmni Basis wedi ei gynnal ddiwedd Tachwedd ar gyfer llunio Siarter Data Cyngor Gwynedd. | Ydi |
| | | **GD4 – llwyfan adrodd ar ddata**<br>▪ Dehongli'r anghenion<br>▪ Adolygu'r opsiynau sydd ar gael<br>▪ Caffael datrysiad fel peilot<br>▪ Mesur effaith y peilot a paratoi achos busnes ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth | Y tîm data corfforaethol wedi mynychu sesiynau 1:1 gyda cwmni Microsoft i rannu gwybodaeth am lwyfan adrodd PowerBI ac isadeiledd llwyfannu data Microsoft Fabric ar gyfer Ch3. | Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **GD6 – adrodd ar berfformiad**<br>▪ Is-grŵp data i gydweithio â'r Tîm Rheoli Corfforaethol i greu argymhellion i wella adroddiadau adrodd ar berfformiad | Mae'r prosiect yma ar waith yn barod ac yn cael ei arwain gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. | Ydi |
| | | **GSB6 – rhyngrwyd y pethau**<br>▪ Paratoi achos busnes i'r Bwrdd Hinsawdd ar gyfer adnoddau ychwanegol<br>▪ Ymchwilio achosion defnydd o sut gall rhyngrwyd y pethau gynorthwyo ymdrechion Cyngor Gwynedd i leihau aralliadau<br>▪ Cyflwyno datrysiad ar sail leihau ein defnydd o drydan a gwresogi'n swyddfeydd | Mae sawl prosiect bychan yn mynd rhagddo a derbyniwyd gwobr am ein gwaith arloesol drwy ddefnydd synhwyrwyr LoRaWAN yn y maes llifogydd.<br><br>Cyhoeddwyd bod achos busnes ar gyfer creu rhwydwaith LoRaWAN rhanbarthol yng ngogledd Cymru ar gyfer wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r isadeiledd yma yn greiddiol fel bod datblygiadau rhyngrwyd y pethau ffynnu a swyddogion o'r Cyngor yn flaenllaw yn eu cefnogaeth i'r achos busnes.<br><br>Bydd achos busnes a cais am adnoddau yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Hinsawdd yn Ionawr, ac yn alluogwr i gynnal mwy o brosiectau yn y maes hwn. | Na |
| | | **GWEI4 – hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol**<br>▪ Paratoi achos busnes ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion<br>▪ Prentisiaid gwyddor data<br>▪ Hyfforddai Trawsnewid Digidol<br>▪ Paratoi rhaglenni i ymweld a'r ysgolion i hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol | Penodwyd dau brentis gradd mewn gwyddor data yng Ngorffennaf a'r ddau aelod newydd wedi setlo'n dda fel rhan o'r tîm datblygu. | Ydi |